Trwyddedu Tacsis
Neuadd y Ddinas, Parc Cathays
Caerdydd: CF10 3ND
tacsi@caerdydd.gov.uk
yswirianttacsi@caerdydd.gov.uk
trwyddedu@caerdydd.gov.uk
www.caerdydd.gov.uk/trwyddedu

# Cais am Drwydded Gweithredwr Cerbyd Llogi Preifat (Cymeradwyo/Adnewyddu)

**Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976**

**Sylwch NA fydd y ffurflen hon yn cael ei phrosesu nes bydd POB rhan isod wedi'i chwblhau.**

## Gwiriadau Treth

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth yn rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

**Dim ond os ydych yn gwneud unrhyw un o'r canlynol y mae'r adran hon yn berthnasol:**

- Adnewyddu trwydded; neu
- Wneud cais am yr un math o drwydded a oedd gennych yn flaenorol, a ddaeth i ben llai na blwyddyn yn ôl; neu
- wneud cais am yr un math o drwydded sydd gennych eisoes gydag awdurdod trwyddedu arall

**Gweler y datganiad pwynt 6 isod.**

| **Cod Gwirio Treth** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

(Mae angen hyn ar gyfer pob plaid sydd wedi eu henwi ar y drwydded)

Os ydych yn gwneud cais fel Cwmni Cyfyngedig:

| **Rhif Cofrestru'r Cwmni** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Mae rhagor o fanylion am sut i gael Cod Gwirio Trethi ar gael yn:

https://www.access.service.gov.uk/login/signin/creds

https://www.gov.uk/guidance/check-employment-status-for-tax.cy

**Dim ond os ydych yn gwneud y canlynol y mae'r adran hon yn berthnasol:**

- Dyfarnu Trwydded Newydd

| | | |
|---|---|---|
| **Rwyf wedi darllen a deall Canllawiau CThEM ynglŷn â'm cyfrifoldebau treth** | Do | **Na** |

**Cais i Gymeradwyo neu Adnewyddu**

Ticiwch y blwch perthnasol

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grant | | Adnewyddu | | Rhif Trwydded | | 5 Mlynedd | | 1 Year | |

Ydych chi’n gwneud cais fel unigolyn/partneriaeth neu fel cwmni cyfyngedig? (Ticiwch fel sy’n briodol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Unigolyn / Partneriaeth<br>**Cwblhewch Rannau A, C a D** | | Cwmni cyfyngedig<br>**Cwblhewch Rannau B, C a D** | |

**Rhan A – Manylion yr Ymgeisydd (Unigolyn/Partneriaeth)**
(Llenwch y rhan hon os ydych yn gwneud cais fel unigolyn neu bartneriaeth).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw(au):<br>Rhif bathodyn os yw'n berthnasol | | | |
| Enw masnachu: | | | |
| Cyfeiriad personol: | | | |
| Cyfeiriad masnachu:<br>(Mae’n rhaid i hyn fod yng Nghaerdydd) | | | |
| Rhif(au) ffôn llinell tir: | | Rhif(au) ffôn symudol: | |
| Cyfeiriad e-bost: | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes gennych hawl i breswylio'n gyfreithlon yn y DU? | Do | | Nac ydw | |
| A oes gennych hawl i weithio'n gyfreithlon yn y DU? | Do | | Nac ydw | |

**Os ydych yn ymgeisio fel unigolyn/partneriaeth, bydd gofyn am ddogfennau ategol gwreiddiol i brofi’ch hawl i aros a gweithio yn y DU. Gweler y rhestr o ddogfennau derbyniol isod.**

**Rhan B – Manylion Cwmni**
(Llenwch y rhan hon os ydych yn gwneud cais fel cwmni cyfyngedig).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw’r Cwmni: | | | |
| Enw(au) pob cyfarwyddwr: Rhif bathodyn os yw'n berthnasol | | | |
| Enw(au) Ysgrifennydd y Cwmni | | | |
| Cyfeiriad cofrestredig: | | | |
| Cyfeiriad Cyfeiriad: | | | |
| Rhif(au) ffôn llinell tir: | | Rhif(au) ffôn symudol: | |
| Cyfeiriad(au) e-bost: | | | |
| Cyfeiriad yr holl Gyfarwyddwyr a’r ysgrifennydd: | | GDG wedi'i Atodi? | |

| | | |
|---|---|---|
| (defnyddiwch daflen ar wahân os oes angen) | | |

**Rhan C – Datgan Trwyddedau a Chollfarnau Blaenorol ac ati**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ydych chi, neu unrhyw gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni, wedi bod â Thrwydded Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus (CGC) neu Drwydded Gweithredwr Cerbyd Llogi Preifat gyda'r Cyngor hwn neu unrhyw Gyngor arall? | Do | | Nac ydw | |

Os ydych, nodwch ddyddiadau a pha Gyngor:

…………………………………………………………………………………………………………………….......................

…………………………………………………………………………………………………………………………......

Os ydych, a gafodd y drwydded ei hatal neu ei thynnu nôl, ac os felly, pam?

…………………………………………………………………………………………………………………………......

…………………………………………………………………………………………………………………………......

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ydych chi, neu unrhyw gyfarwyddwyr neu ysgrifenyddion yn y cwmni, erioed wedi cael rhybudd neu eich/eu collfarnu am drosedd? | Do | | Nac ydw | |

(Wrth ateb y cwestiwn hwn, cofiwch am Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974).

Os ydych, nodwch fanylion llawn a dyddiad y rhybudd/collfarn? (Defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen).

…………………………………………………………………………………………………………………………......

…………………………………………………………………………………………………………………………......

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ydych chi, neu unrhyw gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni, wedi gwneud cais am Drwydded Gyrrwr Llogi Preifat, Trwydded Cerbyd Llogi Preifat, Trwydded Gweithredwr Llogi Preifat, Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Drwydded Gerbyd Hacni sydd wedi'i wrthod, neu unrhyw drwydded o'r fath wedi'i hatal neu ei diddymu? | Do | | Nac ydw | |

Os ydych, rhowch fanylion llawn gan gynnwys enw'r Cyngor a'r dyddiad:

……………………………………………………………………………………………………………….......

……………………………………………………………………………………………………………….....

## Cais am Drwydded Gweithredwr Cerbyd Llogi Preifat (Cymeradwyo/Adnewyddu)

## Rhan D - Datganiad

**Darllenwch yr adran hon yn ofalus ac ni ddylech ond ei llofnodi os ydych yn ei deall a'ch bod yn derbyn pob un o'r datganiadau.**

**(1)** Rwy'n datgan trwy hyn fy mod wedi gwirio'r wybodaeth a gyflwynaf ar y ffurflen gais Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat hon a'i bod, hyd y gwn i, yn gywir. Gwnaf y datganiad hwn gan wybod os bu i mi, yn wybodus neu'n ddiofal, wneud datganiad ffug neu hepgor rhywbeth yn gamarweiniol, y byddaf yn agored i gael fy erlyn ac (os caf drwydded) y gellir atal neu ddirymu fy nhrwydded.

**(2)** Deallaf y bydd unrhyw drwydded yn amodol ar y darpariaethau canlynol:

a. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
b. amodau trwydded y Cyngor ac unrhyw gyfreithiau, is-ddeddfau neu reoliadau perthnasol eraill sy'n dod i rym

**(3) Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) – Polisi Preifatrwydd**
Ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais am wiriad GDG.
Rwyf wedi darllen y Polisi Preifatrwydd Gwiriad Safonol / Manwl i ymgeiswyr https://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policies ac rwy'n deall sut bydd GDG yn prosesu fy nata personol a'r opsiynau sydd ar gael i mi ar gyfer cyflwyno cais.

**(4) Deddf Diogelu Data 2018**
O ran Deddf Diogelu Data 2018, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac i'r perwyl hwn gall ddefnyddio'r wybodaeth a gyflwynwch ar gyfer eich cais trwyddedu a'r data a gedwir o fewn yr awdurdod ar gyfer atal a chanfod twyll. Pan fo angen, gall hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gweinyddu arian cyhoeddus a sefydliadau eraill at y dibenion hyn yn unig. Dan Erthygl 6(1)(e) o'r GDPR, caniateir i ni ddefnyddio data ar gyfer ein tasgau.

Caiff unrhyw ddata a roddir gennych ar y ffurflen hon ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data, ac wrth ei roi rydych chi'n caniatáu i Gyngor Caerdydd ei brosesu at y diben y'i rhoddwyd. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a rowch yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol a dim ond at ddibenion a ganiateir gan y gyfraith y bydd y Cyngor yn ei defnyddio neu ei datgelu i eraill.

**(5) Gwiriad Treth (lle bo'n berthnasol)**
Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth yn rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

Drwy gyflwyno fy nghod gwirio treth gan CThEM rwy'n cydsynio i'r Cyngor gadarnhau gyda CThEM fy mod wedi cynnal gwiriad treth. Rwy'n deall na fyddaf yn cael trwydded os na fyddaf yn cyflwyno cod gwirio treth.

**Cynghorir ymgeiswyr ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu hepgor unrhyw ddeunydd yn enwedig wrth roi gwybodaeth.**

Rwy'n deall ac yn derbyn pob un o'r 5 datganiad uchod. Os caiff trwydded ei chaniatáu rwyf i/rydym ni'n addo cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth gymeradwyo'r drwydded.

Llofnod yr ymgeisydd/ymgeiswyr…………………………………………………………… Dyddiad……………………………

............................................................... Dyddiad...............................

............................................................... Dyddiad...............................

............................................................... Dyddiad...............................

............................................................... Dyddiad...............................

**This form is also available in English / Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

Sylwch, mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno'r ddogfennaeth ganlynol gyda'r ffurflen hon:

- Y ffi drwydded 5 mlynedd (ar gael yn y Swyddfa Cerbydau Cyhoeddus neu ar y wefan a nodir uchod), sieciau i'w gwneud yn daladwy i Gyngor Caerdydd.
- Datgeliad sylfaenol dyddiedig o fewn mis i'r cais. Yn achos ceisiadau gan gwmni neu sefydliad, rhaid i holl gyfarwyddwyr y cwmni/sefydliad ddarparu datgeliad sylfaenol. Gellir cael datgeliad sylfaenol o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: https://www.gov.uk/request-copy-criminal-record

| **AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Derbynneb:** | | **ARIAN PAROD / SIEC / CERDYN D** | **Swm a dalwyd**<br>**£** | **Prosesu Swyddog:** | |
| **Datgeliad GDG Sylfaenol wedi'i Atodi?** | | **Enw:** | | **Neu Rhif Bathodyn Cyfarwyddwyr:** | |
| | | **Enw:** | | | |

## Rhestrau o ddogfennau derbyniol ar gyfer yr hawl i drwydded

Mae'r rhestrau dogfennau yn seiliedig ar y rhai a ragnodir er mwyn dangos tystiolaeth o hawl i weithio.

### Rhestr A: Dim cyfyngiadau ar yr hawl i fyw yn y DU

1. Pasbort yn dangos bod y deiliad, neu berson a enwir yn y pasbort fel plentyn y deiliad, yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd y DU a'r Trefedigaethau sydd â'r hawl i fyw yn y DU.

2. Pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol sy'n dangos bod y deiliad, neu berson a enwir yn y pasbort fel plentyn y deiliad, yn ddinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

3. Tystysgrif Cofrestru neu Ddogfen sy'n Ardystio Preswyliad Parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

4. Cerdyn Preswyliad Parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i aelod teulu'r ddinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

5. Dogfen Fewnfudo Fiometrig gyfredol (Trwydded Preswyliad Fiometrig) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos y caniateir i'r person a enwir aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu nad oes ganddo derfyn amser ar ei arhosiad yn y DU.

6. Pasbort cyfredol a ardystir i ddangos bod y deiliad wedi'i eithrio o reolaeth ymfudo, y caniateir iddo aros am gyfnod amhenodol yn y DU, mae ganddo hawl i breswylio yn y DU, neu nad oes ganddo derfyn amser ar ei arhosiad yn y DU.

7. Dogfen Statws Mewnfudo gyfredol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad gyda'r ardystiad yn dangos y caniateir i'r person a enwir i aros am gyfnod amhenodol yn y DU neu nad oes ganddo derfyn amser ar ei arhosiad yn y DU, ynghyd â dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol y person a'i enw a roddwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. Gellir dod o hyd i Ddogfen Statws Mewnfudo yma.

8. Tystysgrif geni neu fabwysiadu a roddwyd yn y DU sy'n cynnwys enw(au) o leiaf un o rieni neu rieni mabwysiadol y deiliad, ynghyd â dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol y person a'i enw a roddwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

9. Tystysgrif geni neu fabwysiadu a ddosbarthwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon, ynghyd â dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol y person a'i enw a ddosbarthwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

10. Tystysgrif o gofrestru neu ddinasyddio fel dinesydd Prydeinig, ynghyd â dogfen swyddogol sy’n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol y person a’i enw a roddwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

### Rhestr B: Cyfyngiadau ar yr hawl i fyw yn y DU

1. Pasbort cyfredol a ardystiwyd i ddangos y caniateir i'r deiliad aros yn y DU a chaniateir ar hyn o bryd iddo wneud y math o waith dan sylw.

2. Dogfen Fewnfudo Fiometrig gyfredol (Trwydded Preswyliad Fiometrig) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n dangos y caniateir i'r person a enwir aros ar hyn o bryd yn y DU, a chaniateir iddo wneud y gwaith dan sylw.

3. Cerdyn Preswylio Cyfredol (gan gynnwys Cerdyn Preswylio Cytuniad neu Gerdyn Preswyl Deilliadol) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd o Ardal Economaidd nad yw’n Ewropeaidd sy’n aelod teulu dinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir neu sydd â hawl preswylio ddeilliannol. Mae’r arweiniad hwn [dolen at dudalen 16] yn darparu rhagor o wybodaeth am wirio hawl aelod teulu dinesydd o Ardal Economaidd nad yw'n Ewropeaidd i gael trwydded.

4. Dogfen Statws Mewnfudo gyfredol sy'n cynnwys ffotograff a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i’r deiliad gydag ardystiad sy’n dangos y caniateir i'r person a enwir aros yn y DU a chaniateir iddo wneud y math o waith dan sylw, ynghyd â dogfen swyddogol sy’n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol y person a’i enw a roddwyd gan asiantaeth y Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

1. Tystysgrif Ymgeisio a roddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan reoliad 17(3) neu 18A (2) Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2006, i aelod teulu dinesydd gwlad Ardal Economaidd Ewropeaidd neu’r Swistir sy’n datgan y caniateir i'r daliwr gael cyflogaeth sy'n llai na 6 mis ynghyd â Gwiriad gan Uned Tystiolaeth ac Ymholiadau y Swyddfa Gartref. Caiff y drwydded ei roi am gyfnod o chwe mis o ddyddiad y Dystysgrif Ymgeisio.

2. Gwiriad a dosbarthwyd gan Uned Tystiolaeth ac Ymchwiliad y Swyddfa Gartref i chi, sy’n dangos y caiff y person a enwir aros yn y DU oherwydd bod ganddo gais, apêl neu adolygiad gweinyddol mewn pryd ac yn orddyledus. Gellir ddosbarthu trwydded am chwe mis o ddyddiad penderfyniad y drwydded.

**(6) Gwiriad Treth (lle bo'n berthnasol)**

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth yn rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y **canllaw** gan CThEM ar gofrestru fy ngwiriad treth.

Drwy gyflwyno fy nghod gwirio treth gan CThEM rwy'n cydsynio i'r Cyngor gadarnhau gyda CThEM fy mod wedi cynnal gwiriad treth.

Rwy’n deall na fyddaf yn cael trwydded os na fyddaf yn cyflwyno cod gwirio treth.